**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth, Tachwedd 22ain am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Mark Young (cadeirydd), Margaret Bowe, Alyn Ashworth, Gaynor Morgan Rees, Robert Parkes & Medwyn Williams; a Jenny Barlow (Clerc y Dref).

Curhaeddod y Cyng Medwyn Williams am 6.37yh.

**Ymddiheuriadau:** Cyng Philip Stevens.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1. **Datgan Diddordeb Personol.** Dim

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar Hydref 18fed 2016.**

3. **Materion yn codi:** Cadarnhaodd clerc y dref fod ymweliad safle wedi cael ei wneud i sefydlu lleoliad y coed dan sylw (eitem 5.2 cyfarfod mis Hydref) a chadarnhaodd eu bod yn hen goed mawr yn y Westy'r Castell. Mae clerc y dref hefyd wedi cysylltu â Chyngor Sir Ddinbych yn gofyn am gyngor ar y mater hwn. Ateb i law o Sir Ddinbych yn cadarnhau nad oes gan yr awdurdod unrhyw bwerau i orfodi trigolion i docio coed oni bai eu bod yn berygl i'r briffordd. Gan nad yw hyn yn ystyriaeth, cytunwyd nad oedd angen cymryd unrhyw gamau pellach.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r cais canlynol am ganiatâd cynllunio:

   (1) 01/2016/1002
   Tir cyfagos i Brŷn Hyfryd, Dinbych
   Dileu amod rhif 4 o ganiatâd cynllunio 01/2014/1283 yn ymwneud a chytundebau a sicrhau'r annedd a ganiateir fel tŷ fforddiadwy ar gyfer anghenion lleol.

   (2) 01/2016/1069
   15/16 Lon Tarw, Dinbych
   Gwaith i goed o fewn Ardal Gadwraeth Dinbych

   (3) 01/2015/1079
   62 Heol Y Dyffryn
   Newidiadau mewnol a gosod arwydd hongian allanol (Cais Adeilad Rhestredig)

   (4) 01/2016/1005
   Tir Y Dail, Stryd y Parc, Dinbych
   Torri 6 coed sycamorwydden ac 1 goeden ffawydd darostyngedig o Orchymyn Cadw Coed.

(5) 01/2016/1063
Tir Y Dail, Stryd y Parc, Dinbych
Tacio 3 coed afal sur bach o fewn Ardal Gadwraeth Dinbych.

(6) 01/2016/1064
103 Crud Y Castell, Dinbych
Codi estyniad i annedd.

(7) 01/2016/1006
Parciau, Lon Dewi Sant, Dinbych.
Torri 2 coed cypreswydden ac 1 ffawydden gopr o fewn Ardal Gadwraeth Dinbych.
Ymatebwyd ir cais hwn drwy e-bost ar 17 Tachwedd gan fod y dyddiad ateb cyn Cyfarfod y Cyngor hwn - er gwybodaeth yn unig.

**5. Materion Cynllunio eraill - Dim**

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 7.05 o'r gloch.

Arwyddwyd:…………………………………………………(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………